Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 10, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Janet Edwards, Eirlys Roberts, Elfed ap Gomer, John Hughes, Llinos Williams a Carwyn Evans. Hefyd Henry Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams a Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn â Eitem 8.d.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 13, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 13, 2015

Eitem 10.a. Mae angen penodi Llywodraethwr i Ysgol Llanelltyd.

Penderfynwyd derbyn cynnig Carwyn Evans i fod yn Llywodraethwr yr ysgol. Angen rhoi gwybod i'r ysgol.

5. Materion Ariannol

a. Lythyr (23-12-2014) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2014/16. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £8.835 yr awr ar bwynt SCP17. Mae'r cyflog yn newid i £9.029 yr awr. Cyflog presennol yw £8.835 x 12(oriau) x 12(misoedd) = £1,272.24. Cyflog newydd fydd £9.029 x 12 x 12 = £1,300.18.

Penderfynwyd derbyn y newid.

b. Llythyr (2/2/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru o fis Ebrill 2015. Tâl Aelodaeth yw £78.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

Cafwyd sgwrs gyda Elfed ap Gomer am Un Llais Cymru.

c. Bil (25/1/2015) am £280.00 oddi wrth Paul Cook i ail agor bedd yn y Fynwent at wasanaeth ar 23/1/2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Bil (2/2/2015) am £280.00 oddi wrth Paul Cook i ail agor bedd yn y Fynwent at wasanaeth ar 2/2/15.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth arianno:

NSPCC, Shelter Cymru, Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2015, Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru – Pwyllgor Apel Cylch Dolgellau, Marie Curie Cancer Care.

Mewn llythyr (4 Rhagfyr 2013) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2014-15. Maent yn rhoi gwybod gall cyngor cymuned wario yn 2014-15 hyd at uchafswm o £7.20, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.20 x 378 = £2,721.60.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

NSPCC - £50
Shelter Cymru - £50
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru - £50
Sioe Frenhinol Cymru – Pwyllgor Apel Cylch Dolgellau - £50
Ambiwlans Awyr Cymru - £200
Hosbisau Plant Hope House - Hope House, Croesoswallt, a Tŷ Gobaith, Conwy - £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50
Ysgol Feithrin Dolgellau - £50
Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch - £50
Neuadd Bentref Bontddu: - £600
Neuadd Bentref Llanelltyd - £600
Ysgol Gynradd Bontddu - £300
Ysgol Gynradd Llanelltyd - £300
Marie Curie Cancer Care - £50
Age Cymru Gwynedd a Môn - £50
Cyfanswm: £2,500

Roedd rhodd i'r ysgolion yn mynd i Gyfeillion yr ysgolion.

Penderfynwyd cyfrannu £50 i Sioe Frenhinol Cymru - Pwyllgor Apel Cylch Dolgellau blwyddyn nesaf.

dd. Bil (1/1/2015) am £31.20 oddi wrth G.W. Jones am dorri gwrych y Fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Siec am £520 oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Joan Edwards - claddedigaeth bellach. Angladd ar (2/2/2015).

e. Siec am £520 oddi wrth D.H. Gabriel. Taliad at Eileen Teresa Mary Owen - claddedigaeth bellach. Angladd ar (23/1/2015).

f. Cafodd Cyfrifon y Cyngor eu harchwilio gan Elfed ap Gomer.

Diolchwyd i Elfed ap Gomer am archwilio'r cyfrifon.

ff. Balans yn y banc ar Ionawr 29, 2015: £6,495.41.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (25 Ionawr 2015) oddi wrth Pwyllgor Apel Cylch Dolgellau. Maent angen cymorth ariannol tuag at Sioe Frenhinol Cymru. Sir nawdd 2016 Meirionnydd.

b. Llythyr (28.1.2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith o symud coeden a llystyfiant, o'r bont Afon Cwm Mynach, Borthwnog, er mwyn atgyweirio rheiliau canllaw.

c. Llythyr (2/2/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Pafiliwn Criced, Y Marian, Dolgellau ar 11 Chwefror am 7:00yh. Amgáu mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod y pwyllgor ar 19 Tachwedd, 2014.

ch. Llythyr (9/2/2015) oddi wrth Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae contractwr yn tocio gordyfiant rhwng Fferm Pentre a'r Clwb Golff, ac yn rhoi gât newydd wrth Fferm Pentre.
Maent yn gofyn i ni gynnwys y llwybr ar ein rhaglen flynyddol i glirio llwybrau.

Penderfynwyd gwneud y gwaith fel mae'r Cyngor ei angen. Hefyd, rhoi gwybod i Mr I.W. Thompson.

d. Llythyr (10.02/2015) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod bod gwaith i greu gwefan i'r Cyngor wedi ei gwblhau. Enw'r wefan yw www.cyngorllanelltyd.cymru

Penderfynwyd derbyn cynnwys y llythyr, ac anfon y wybodaeth ymlaen i Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd hefyd cynnwys nodyn ar y wefan yn gofyn a oes cyfieithiad i'r Saesneg ei angen.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Mae trafodaethau yn parhau i gael cyfarfod yn Bontddu ynglŷn â goryrru trwy'r pentref.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, mae angen ysgubo dail ar ffyrdd Cwm Mynach.